# Olaparib gyda bevacizumab ar gyfer triniaeth gynnal i ganser ofarïaidd datblygedig, y tiwb ffalopaidd neu beritoneol sylfaenol

17 Ionawr 2024

Mae olaparib (Lynparza) gyda bevacizumab (Avastin) ar gael ar y GIG fel triniaeth gynnal bosibl ar gyfer canser ofarïaidd epithelaidd gradd uchel, tiwb ffalopaidd neu beritoneol sylfaenol mewn oedolion. Gallwch ei gael os ydy eich canser:

- wedi ymateb yn gyfan gwbl neu'n rhannol i gemotherapi seiliedig ar blatinwm llinell flaen gyda bevacizumab
- yn ddatblygedig ac
- os oes gan eich canser fwtadiad ar y genyn BRCA1 neu BRCA2 neu ansefydlogrwydd genomig, sy'n golygu bod mwtadiadau genynnau yn fwy tebygol.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar ganser ofarïaidd fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Ovacome (0800 008 7054)
- Target Ovarian Cancer (0207 923 5475)
- Ymchwil Canser y DU (0808 800 4040)
- Cymorth Canser Macmillan (0808 808 0000)

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9504-2